Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Cylchlythyr Rhif. 2020/03

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Deddf Ddedfrydu 2020** |
| Oddi wrth: | Uned Bolisi Mechnïaeth, Dedfrydu a Rhyddhau |
| Dyddiad cylchredeg: | 25 Tachwedd 2020 |
| Dyddiad gweithredu: | 1 Rhagfyr 2020 |
| I gael gwybodaeth bellach cysyllter â: | Jack Hickey<br>Jack.Hickey@justice.gov.uk |
| Maes: | Cyfiawnder Troseddol |
| Is-gategori: | Deddfwriaeth |
| Mae'r cylchlythyr hwn yn cymryd lle: | N/A |
| Bwriedir y cylchlythyr hwn ar gyfer y canlynol: | Yr Arglwydd Brif Ustus, Barnwyr y Goruchaf Lys, Meistri'r Rholiau, Llywydd Adran Mainc y Frenhines, Llywydd yr Adran Deulu, Canghellor yr Uchel Lys, Uwch Farnwr Llywyddol, Arglwydd Ustusiaid y Llys Apêl, Barnwyr yr Uchel Lys, Barnwyr Cylchdaith, Dirprwy Farnwyr Cylchdaith, Cofiaduron, Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), Cadeiryddion Meinciau, Clercod Ynadon, Prif Erlynwyr y Goron.<br><br>Y Coleg Barnwrol, Y Cyngor Dedfrydu, Cyngor y Barnwyr Rhanbarth, Cymdeithas yr Ynadon, Cymdeithas Clercod yr Ynadon, Cofrestrydd Apeliadau Troseddol, Cyfarwyddwyr Cyflawni GLlTEM, Rheolwyr Llys y Goron, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Cymdeithas Cyfreithwyr Troseddol y Bar. |

# DEDDF DDEDFRYDU 2020

## Cyflwyniad

Bydd Deddf Ddedfrydu 2020 yn dod i rym ar y cyntaf o Ragfyr 2020. Mae'r Ddeddf yn creu'r **Cod Dedfrydu**, sy'n dod â’r darpariaethau deddfwriaethol y mae llysoedd yn cyfeirio atynt wrth ddedfrydu troseddwyr at ei gilydd. Mae ei chwmpas yn cynnwys dedfrydu oedolion ac ieuenctid. Nid yw'r Cod Dedfrydu yn cynnwys darpariaethau rhyddhau / galw yn ôl.

Nod y Cod Dedfrydu yw cynorthwyo barnwyr a gweithwyr proffesiynol cyfreithiol i adnabod a chymhwyso'r gyfraith, lleihau'r risg o gamgymeriad a gwella tryloywder y broses ddedfrydu i'r cyhoedd. Mae'n benllanw prosiect Cod Dedfrydu Comisiwn y Gyfraith, sy'n rhan o 12fed Rhaglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith.

Mae’r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth am sut y crëwyd y Cod Dedfrydu a sut y daw i rym. Ni ddylid ei ystyried fel cyngor cyfreithiol. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch cymhwyso neu ddehongli'r ddeddfwriaeth.

## Crynodeb

### Trosolwg o’r Cod Dedfrydu

Mae rhannau 2 i 13 o'r Ddeddf gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cod Dedfrydu. Fe'i trefnir mewn ffordd sy'n dilyn cronoleg gwrandawiad dedfrydu ac mae’n ymdrin â'r materion canlynol:

*Cyn dedfrydi*
- Mae Rhan 2 yn ymwneud â phwerau y gall y llys eu harfer cyn dedfrydu.

*Dedfrydu*
- Mae Rhan 3 yn ymwneud â gweithdrefnau’r llys wrth ddedfrydu.
- Mae Rhan 4 yn ymwneud â'r disgresiwn sydd gan lys wrth ddedfrydu.

*Dedfrydau*
- Mae Rhan 5 yn ymwneud â rhyddhau absoliwt ac amodol.
- Mae Rhan 6 yn ymwneud â gorchmynion sy'n ymwneud ag ymddygiad.
- Mae Rhan 7 yn ymwneud â dirwyon a gorchmynion eraill sy'n ymwneud ag eiddo.
- Mae Rhan 8 yn ymwneud â gwaharddiadau.
- Mae Rhan 9 yn ymwneud â dedfrydau cymunedol.
- Mae Rhan 10 yn ymwneud â dedfrydau o garchar.
- Mae Rhan 11 yn ymwneud â gorchmynion ymddygiad.

*Cyffredinol*
- Mae Rhan 12 yn cynnwys darpariaeth amrywiol a chyffredinol ynghylch dedfrydu.
- Mae Rhan 13 yn ymdrin â dehongli.

### Achosion y bydd y Cod Dedfrydu yn berthnasol iddynt

Bydd unrhyw un a gafwyd yn euog o drosedd ar 1 Rhagfyr 2020 neu ar ôl hynny yn cael ei ddedfrydu o dan y Cod Dedfrydu, ni waeth pryd y cyflawnwyd y drosedd.

Bydd unrhyw un a geir yn euog o drosedd cyn 1 Rhagfyr 2020 yn cael ei ddedfrydu o dan y gyfraith fel yr oedd cyn y cod (e.e. Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008), hyd yn oed os bydd y dedfrydu yn digwydd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae Atodlen 27 y Ddeddf (darpariaethau trosiannol ac arbedion) yn darparu ar gyfer parhad didoriad y gyfraith os yw Llys yn wynebu materion sy’n berthnasol i’r cyfnod cyn cyn y Cod a’r Cod Dedfrydu.

Ailddedfrydu troseddwyr

Nid yw'r Cod Dedfrydu yn berthnasol i ailddedfrydu troseddwyr yn achos apeliadau a gwrandawiadau 'rheol llithriad' lle mae'r euogfarn yn dyddio cyn 1 Rhagfyr 2020, ac nid yw'n berthnasol ychwaith lle mae llys yn delio â throseddwr am dorri gorchymyn a osodwyd o dan y gyfraith cyn y Cod.

Yn rhinwedd adran 402 y Cod Dedfrydu, lle mae gan lys y pŵer i ailddedfrydu troseddwr am drosedd o dan y Cod Dedfrydu (h.y. pan ddedfrydwyd y troseddwr yn wreiddiol am y drosedd o dan y Cod Dedfrydu), bydd gan y llys sy’n ailddedfrydu yr un pwerau â'r rhai a fyddai ar gael iddo pe bai newydd farnu'r troseddwr yn euog o'r drosedd. Mewn achos lle yr oedd y troseddwr o dan 18 oed pan gafwyd ef yn euog, rhaid i'r llys drin y troseddwr fel pe bai yr un oed â phan gafwyd ef yn euog yn wreiddiol.

Materion eraill i fod yn ymwybodol ohonynt

Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r Cod Dedfrydu yn rhannu dedfrydau yn ôl oed y troseddwr ac yn egluro’r sefyllfa ar gyfer pobl ifanc 18 i 20 oed yn llawn. Er enghraifft, mae'r ddedfryd ar gyfer rhai troseddwyr sy'n peri pryder neilltuol (ar gael ar hyn o bryd o dan adran 236A Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ar gyfer troseddwyr sy’n 18 oed neu'n hŷn) i'w gweld yn adrannau 265 (troseddwyr 18 - 20 oed) a 278 (troseddwyr 21 oed a hŷn) y Cod Dedfrydu.

Mae rhai darpariaethau yn y Cod Dedfrydu yn darparu tablau i ddefnyddwyr eu dilyn (gweler, er enghraifft, y tabl gofynion gorchymyn cymunedol yn adran 201 y Cod Dedfrydu). Defnyddir darpariaethau cyfeirio hefyd drwyddi draw, i dynnu sylw defnyddwyr at fodolaeth darpariaethau perthnasol eraill, yn y Cod Dedfrydu neu mewn man arall.

Mae'r Ddeddf yn ailddeddfu rhai darpariaethau sy'n bodoli eisoes nad ydynt wedi dod i rym eto. Bydd y rhain yn dal heb ddod i rym am y tro ac maent wedi'u cynnwys yn Atodlen 22 y Ddeddf, ar wahân i brif gorff y Cod Dedfrydu.

## Cefndir

Mae cyfraith dedfrydu yn berthnasol i dros filiwn o achosion unigol bob blwyddyn ond ar hyn o bryd mae'n hynod gymhleth ac anghydweddol. Mae dros 1,300 tudalen o gyfraith mewn grym, wedi'u lledaenu ar draws nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd.

Nod y Cod Dedfrydu yw sicrhau bod cyfraith weithdrefnol dedfrydu yn ddealladwy ac yn gweithredu o fewn fframwaith clir mor effeithlon â phosibl. Dim ond y gyfraith

weithdrefnol ddedfrydu ddiweddaraf y mae'n ei chynnwys, sy'n golygu na fydd yn rhaid i lysoedd nodi a chymhwyso fersiynau hanesyddol o'r gyfraith mwyach, yn dibynnu ar pryd y cyflawnwyd y drosedd, ond yn hytrach byddant yn ymgynghori â'r Cod Dedfrydu. Ar gyfer euogfarnau ar ac ar ôl 1 Rhagfyr 2020, dylai'r Cod Dedfrydu nodi'r sefyllfa yn amlwg ac ni ddylai fod angen cyfeirio at ddarpariaethau gweithredu a darpariaethau trosiannol ar wahân.

Gwnaeth Deddf Ddedfrydu (Diwygiadau Cyn Cydgrynhoi) 2020 ddiwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth ddedfrydu bresennol i hwyluso cydgrynhoi cyfraith weithdrefnol dedfrydu yn y Cod Dedfrydu. Yn ogystal taclusodd y Ddeddf honno gyfraith dedfrydu, a dilëwyd fersiynau hanesyddol o gyfraith dedfrydu ar gyfer achosion lle mae euogfarn yn digwydd ar ôl i'r Cod Dedfrydu ddod i rym. Mae'r tacluso yn ddarostyngedig i rai eithriadau (a nodir yn rhan gyntaf y Cod Dedfrydu) i amddiffyn hawliau sylfaenol troseddwyr. Roedd y tacluso yn caniatáu i'r Cod Dedfrydu nodi'r gyfraith berthnasol heb ei gwneud yn ofynnol i lysoedd gyfeirio at ddarpariaethau gweithredu a darpariaethau trosiannol ar wahân ac, mewn rhai achosion, hen gyfraith ddedfrydu wrth ddelio â throseddwyr yn achos euogfarnau ar 1 Rhagfyr 2020 neu ar ôl hynny.

Nid yw Deddf Ddedfrydu (Diwygiadau Cyn Cydgrynhoi) 2020 na Deddf Ddedfrydu 2020 yn cyflwyno unrhyw gyfraith ddedfrydu newydd, ac nid ydynt chwaith yn newid y cosbau uchaf sydd ar gael am drosedd nac yn cynyddu cwmpas y darpariaethau dedfrydu lleiaf.

**Dolenni defnyddiol**

Deddf Ddedfrydu 2020:
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/17/contents/enacted

Tabl Achau (yn dangos achau’r darpariaethau yn Neddf Ddedfrydu 2020):
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/17/pdfs/ukpgatoo_20200017_en.pdf

Tabl o amcanion (yn dangos sut y mae Deddf Ddedfrydu 2020 yn ymdrin â deddfau y bwriedir eu diddymu):
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/17/pdfs/ukpgatod_20200017_en.pdf

Rheoliadau Deddf Ddedfrydu (Dod i rym Rhif 1) 2020:
https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1236/contents/made

Deddf Ddedfrydu (Diwygiadau Cyn Cydgrynhoi) 2020:
https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/9/contents/enacted

Prosiect Cod Dedfrydu Comisiwn y Gyfraith:
https://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/